ST AIDAN'S CHURCH IN WALES V.A. SCHOOL

Wiston, Haverfordwest, Pembrokeshire, SA62 4PS
Telephone: 01437 731449
Email: admin.staidans@pembrokeshire.gov.uk
http://www.st-aidans.pembrokeshire.sch.uk/

Executive Headteacher: Mrs. M. Brown

St Aidan's is a place where God's love surrounds everyone; where pupils work together and are challenged to meet their goals because they 'Believe and Achieve'.

5 Gorfennaf 2017

At yr holl ymgyngoreion statudol

Annwyl Syr / Madam,

Newid Rheoledig i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Aidan

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu bod corff llywodraethu'r ysgol wedi ystyried y cynnig cyhoeddedig canlynol yn ei gyfarfod allweddol a gynhaliwyd ar 5 Gorfennaf 2017:

'Bod yr ystod oedran y gellir eu derbyn yn cael ei ddiwygio o 4-11 oed i 3-11 oed er mwyn effeithio ar dderbyniad disgyblion meithrin.'

Penderfynodd y corff llywodraethu dderbyn y cynnig fel y'i cyhoeddwyd.

Cyn dod i benderfyniad, ystyriodd y corff llywodraethu'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o ymgynghoriad statudol; ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cynnig. Ystyriodd y corff llywodraethu ffactorau amrywiol hefyd wrth benderfynu, sef:

a) Ansawdd a safonau addysg
b) Yr angen am lefydd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
c) Adnoddau Addysg a goblygiadau ariannol eraill
d) Ffactorau cyffredinol eraill:
    - Pa effaith fydd cynigion yn ei gael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;
    - Unrhyw faterion cydraddoldeb, gan gynnwys y rheiny a ganfyddir trwy asesu'r effaith ar gydraddoldeb;
    - Pa un ai a yw'r ysgol dan sylw yn destun diddordebau ymddiriedolaeth neu elusennol;
e) Ffactorau penodol i gynigion i ychwanegu neu ddiddymu dosbarthiadau meithrin

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
INTERNATIONAL SCHOOL AWARD FOUNDATION

- Safon addysg meithrin a digonolrwydd adeiladau a chyfleusterau a gynigir, yn y dosbarth a thu allan, a hyfywedd unrhyw ysgol sy'n dymuno ychwanegu lleoedd meithrin;
- Pa un ai a oes angen lleoedd meithrin ychwanegol yn yr ardal;
- Lefelau'r galw am fathau penodol o addysg meithrin, ee. Cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gyda nodwedd grefyddol;
- Effaith y cynnig ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr preifat a thrydydd sector;
- Faint fydd y cynnig yn integreiddio addysg blynyddoedd cynnar gyda gwasanaethau gofal plant neu'n gyson ag agwedd integredig.

f) Ffactorau a ystyriwyd wrth gymeradwyo/bennu cynigion trefniadaeth ysgol:
   - Pa un ai a oedd unrhyw gynigion perthnasol eraill;
   - Sicrhau bod yr ymgynghoriad statudol wedi ei gynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (y Cod);
   - Sicrhau bod y cynnig wedi ei gyhoeddi yn unol â'r Cod a bod yr hysbysiad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol;
   - Bod ystyriaeth wedi ei roi i ddogfen yr ymgynghoriad ac adroddiad yr ymgynghoriad;
   - Bod ystyriaeth wedi ei roi i unrhyw wrthwynebiadau ac adroddiad y gwrthwynebiadau ac unrhyw ymatebion i'r hysbysiad yn cefnogi'r cynigion (os yw'n berthnasol).

Bydd gweithredu'r y cynnig yn cyfeirio at faterion allweddol a ganfuwyd yn yr achos am newid, sef:

- I gryfhau sefyllfa'r ysgol o fewn y gymuned leol;
- I creu opsiwn i rieni yn yr ardal a'r cyffiniau ac, yn ei dro, cynyddu'r dewis;
- I ddefnyddio gofod ar gyfer darpariaeth meithrin – felly lleihau'r lleoedd gwag ac yn cryfhau'r ysgol yn y dyfodol agos.

Yr eiddoch yn gywir

Matt Gardner
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Aidan

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL
INTERNATIONAL SCHOOL AWARD FOUNDATION